

2022 Rhif (Cy.)

2022 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Pont-y-pŵl, Torfaen i
Gyffordd Little Mill, Sir Fynwy)
(Gwahardd Cerbydau a Beicwyr
Dros Dro) 2022

The A4042 Trunk Road (Pontypool
Roundabout, Torfaen to Little Mill
Junction, Monmouthshire)
(Temporary Prohibition of Vehicles
and Cyclists) Order 2022

Gwnaed 18 Mawrth 2022
Yn dod i rym 28 Mawrth 2022

Made 18 March 2022
Coming into force 28 March 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4042 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Pont-y-pŵl, Torfaen i Gyffordd Little Mill, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Mawrth 2022.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Pontypool Roundabout, Torfaen to Little Mill Junction, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists) Order 2022 and this Order comes into force on 28 March 2022.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 28 Mawrth 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig yn Sir Torfaen a Sir Fynwy fel a ganlyn;

- i. y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o Gylchfan Pont-y-pŵl i Gylchfan Mamheilad;
- ii. y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o Gylchfan Court Farm hyd at bwynt 15 metr i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r A472 i Little Mill.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd.

Cymhwysu

5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

18 Mawrth 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury trunk road in the Counties of Torfaen and Monmouthshire as follows;

- i. the length of the trunk road that extends from Pontypool Roundabout to Mamhilad Roundabout;
- ii. the length of the trunk road that extends from Court Farm Roundabout to a point 15 metres southwest of the centre-point of its junction with the A472 to Little Mill.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 20:00 hours on 28 March 2022 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road.

Application

5. The prohibitions in article 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

18 March 2022

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government